Beth yw'r manteision?

Rydych chi'n cael mwy am eich arian gyda phrentis dwyieithog

Gall prentis dwyieithog wneud popeth y gall prentis sy'n siarad Saesneg ei wneud – a mwy.

Mae prentisiaid dwyieithog yn eich helpu i ddatblygu eich cynnig dwyieithog. O fanwerthu i letygarwch i ofal iechyd, mae llawer o'ch cwsmeriaid, eich cleientiaid a'ch defnyddwyr gwasanaeth yn dewis darparwyr gwasanaeth dwyieithog yn weithredol yn hytrach na darparwyr uniaith.

Os ydych yn sefydliad sy'n dod o dan fesur y Gymraeg a safonau Comisiynydd y Gymraeg, mae prentisiaid dwyieithog yn ffordd o ddatblygu'r Gymraeg yn eich gweithlu.

Gall dewis a chefnogi prentis dwyieithog helpu pobl ddwyieithog eraill yn eich cwmni ac mae'n dangos eich ymrwymiad i'r Gymraeg ac i agenda 2050 Llywodraeth Cymru.

Fel pob un sy'n ddwyieithog, mae prentisiaid hefyd yn bobl o bob lliw a llun ac yn cynnwys rhai sy'n siarad ychydig bach o Gymraeg tra bod eraill yn rhugl, felly gallwch ddod o hyd i rywun sy'n addas ar gyfer eich busnes chi

Mae cyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf neu eu dewis iaith yn dangos eich bod yn meddwl am eich cwsmeriaid, eich cleientiaid a'ch defnyddwyr gwasanaeth.

Mae dysgu'n ddwyieithog yn golygu bod gan eich prentis yr eirfa arbenigol ar gyfer eich diwydiant a'u bod yn gallu trafod gyda'ch cwsmeriaid – efallai mai Saesneg yw iaith masnach ond efallai bod y Gymraeg yn agos iawn at galonnau eich cwsmeriaid!

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL
atebol
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government